OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 996 (Cy.104)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud	- -	*30 Mawrth 2004*
Yn dod i rym	- -	*31 Mawrth 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, gan weithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

RHAN 1

RHAGARWEINIOL

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004; mae'n gymwys i Gymru, a daw i rym ar 31 Mawrth 2004.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "ceidwad" ("*keeper*") yw unrhyw berson sydd â gofal a rheolaeth dros foch, boed hynny ar sail dros dro neu barhaol, ond nid yw'n cynnwys person nad yw ond yn cludo moch; a

"ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i " the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Alban mewn perthynas â Chymru, i'r Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141) ac fe'u trosglwyddwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw sefydliad, adeiladwaith neu, yn achos fferm awyr agored, unrhyw le y mae moch yn cael eu dal, eu cadw neu eu trafod;

mae i "daliad cymeradwy" ("*approved holding*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 23;

mae i "marc adnabod" ("*identification mark*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 10;

ystyr "marc y genfaint" ("*herdmark*") yw'r cod alffaniwmerig a ddyrennir i genfaint o foch gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag erthygl 4(2);

ystyr "rhif CPH" ("*CPH number*") yw rhif daliad a neilltuir o dro i dro i unrhyw ddaliad neu ran o unrhyw ddaliad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Trwyddedau, awdurdodiadau a chymeradwyaethau

3. Rhaid i unrhyw drwydded, awdurdodiad neu gymeradwyaeth o dan y Gorchymyn hwn fod yn ysgrifenedig, gall fod yn amodol ar amodau a chaniateir ei hatal, diwygio neu ddirymu yn ysgrifenedig ar unrhyw amser.

RHAN 2

CADW COFNODION

Hysbysiadau daliadau

4.—(1) Rhaid i geidwad hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol Cynulliad am yr wybodaeth ganlynol o fewn un mis ar ôl sefydlu daliad —

(a) cyfeiriad y daliad; a

(b) enw a chyfeiriad perchennog neu feddiannydd y daliad.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cod alffaniwmerig ar gyfer pob cenfaint o foch ar y daliad ("marc y genfaint"), ar ôl i'r wybodaeth ym mharagraff (1) gael ei darparu.

(3) Rhaid i geidwad hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am unrhyw newid neu y chwanegiad at yr wybodaeth ym mharagraff (1) o fewn un mis ar ôl y newid neu'r ychwanegiad.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i geidwad sydd eisioes wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae ei angen o dan yr erthygl hon fod yn ysgrifenedig.

Cofnodion symud

5.—(1) Rhaid i geidwad gofnodi pob un o symudiadau mochyn i'w ddaliad ac oddi yno o fewn 36 awr ar ôl y symud.

(2) Rhaid i'r cofnod fod yn y ffurf a nodir yn yr Atodlen.

(3) Os yw'r symud ar gyfer unrhyw ddiben y cyfeirir ato yn erthyglau 19 neu 20 rhaid i'r ceidwad hefyd gofnodi'r rhif adnabod unigol unigryw.

Cofnodion Lladd-dai

6.—(1) Rhaid i feddiannydd lladd-dy, yn ychwanegol at ofynion erthygl 5, gofnodi manylion unrhyw fochyn y deuir ag ef i ladd-dy —

(a) nad yw wedi'i farcio yn unol ag erthygl 14, yn achos mochyn dros 12 mis oed;

(b) nad yw wedi'i farcio yn unol ag erthygl 18 yn achos mochyn 12 mis oed neu'n iau; ac

(c) nad yw'r ddogfen sy'n ofynnol gan erthygl 21 gydagef.

(2) Rhaid i'r manylion i'w cofnodi gael eu cadw ar wahân i'r wybodaeth sy'n ofynnol gan erthygl 5 a rhaid iddynt gynnwys hefyd —

(a) enw ceidwad y mochyn; a

(b) y daliad yr anfonwyd y mochyn oddi arno i'w gigydda.

Cofnodion gwerthu mewn arwerthiant

7.—(1) Mewn marchnad lle gwerthir moch trwy arwerthiant rhaid i feddiannydd y farchnad, ar gyfer pob lot of foch, gofnodi —

(a) yr wybodaeth yn yr Atodlen;

(b) enw'r gwerthwr a'r prynwr; a

(c) rhif y lloc lle y daliwyd pob lot.

(2) Rhaid i'r cofnod gael ei wneud o fewn 36 awr ar ôl y gwerthiant.

Cofnod o'r nifer o foch ar ddaliad

8. O leiaf unwaith y flwyddyn rhaid i'r ceidwad gadw cofnodion uchafswm nifer y moch sy'n bresennol fel rheol ar y daliad.

Cadw cofnodion

9.—(1) Rhaid i unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo wneud cofnodion o dan y Gorchymyn hwn eu cadw am o leiaf 6 blynedd o ddiwedd y flwyddyn y gwnaed y cofnod ynddi.

(2) Caiff cofnodion fod yn ysgrifenedig neu ar ffurf electronig.

RHAN 3

MARCIAU ADNABOD

Marc adnabod

10.—(1) Marc adnabod yw —

(a) tag clust sydd wedi'i stampio neu wedi'i argraffu â'r llythrennau "UK" ac ar ôl hynny marc y genfaint; neu

(b) tatw o farc y genfaint sy'n ddarllenadwy am oes y mochyn.

(2) At ddibenion erthyglau 19 a 20 rhaid i farc y genfaint ym mharagraff (1) gael ei ddilyn gan rif adnabod unigol unigryw a neilltuir i'r mochyn gan y ceidwad.

Gofynion ar gyfer tagiau clust

11. Rhaid i dag clust —

(a) bod yn hawdd ei ddarllen drwy gydol oes y mochyn;

(b) bod wedi'i wneud naill ai o fetel neu blastig neu gyfuniad o fetel a phlastig;

(c) bod yn amhosibl ymhêl ag ef;

(ch) bod yn amhosibl ei ail-ddefnyddio;

(d) gallu gwrthsefyll gwres yn ddigonol fel na fydd prosesu'r carcas yn sgil cigydda yn difrodi'r tag clust na'r wybodaeth sydd wedi'i stampio arno;

(dd) fod o ddylunwaith a fydd yn dal i fod ynghlwm wrth y mochyn heb beri niwed iddo.

Slapfarc

12. Tatw o farc y genfaint a roddir ar ddwy ysgwydd flaen y mochyn yw slapfarc.

Marciau ychwanegol

13. Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn atal ceidwad rhag marcio'r mochyn ag unrhyw wybodaeth arall, neu rhag ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at y marc adnabod, ar yr amod nad yw'r marciau hyn yn effeithio ar y gallu i darllen y marc adnabod neu'r slapfarc.

RHAN 4

GOFYNION ADNABOD CYFFREDINOL

Adnabod moch dros 12 mis oed a symudir oddi ar ddaliad

14. Ni chaiff neb symud mochyn dros 12 mis oed oddi ar ddaliad oni bai ei fod wedi'i farcio â'r canlynol —

(a) marc adnabod; neu

(b) slapfarc sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes y mochyn a thrwy gydol prosesu ei garcas.

Adnabod moch o dan 12 mis oed a symudir oddi ar ddaliad

15.—(1) Ni chaiff neb symud mochyn 12 mis oed neu'n iau oddi ar ddaliad oni bai ei fod wedi'i adnabod yn unol ag erthygl 14 neu â marc dros dro.

(2) Rhaid i farc dros dro—

(a) naill ai ar ei ben ei hun neu drwy gyfeirio at ddogfen sydd gyda'r mochyn yn ystod y symud, alluogi'r daliad y symudwyd y mochyn oddi arno ddiwethaf i gael ei adnabod; a

(b) para nes y bydd y mochyn yn cyrraedd ei gyrchfan.

Adnabod moch a symudir i ddaliad o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

16.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n mewnforio mochyn o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd roi tag clust neu datw ar y mochyn sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol, yn y drefn ganlynol —

(a) y llythrennau "UK";

(b) marc cenfaint y genfaint y cyflwynir y mochyn a fewnforiwyd iddi;

(c) unrhyw wybodaeth arall, os yw'r ceidwad yn dymuno defnyddio gwybodaeth o'r fath; a

(ch) y llythyren "F".

(2) Rhaid i'r tag clust neu'r tatw gael ei roi ar y mochyn o fewn 30 diwrnod ar ôl iddo gyrraedd daliad y gyrchfan, a beth bynnag, cyn iddo gael ei symud o'r daliad hwnnw.

RHAN 5

GOFYNION ADNABOD Y CHWANEGOL

Gofynion adnabod ychwanegol

17. Mae'r gofynion adnabod ar gyfer symud a bennir yn erthyglau 18 i 20 yn gymwys yn ychwanegol at y gofynion yn Rhan 4.

Symud moch 12 mis oed neu'n iau i ladd-dy

18.—(1) Ni chaiff neb symud mochyn 12 mis oed neu'n iau oddi ar ddaliad i ladd-dy neu farchnad gigydda oni bai ei fod wedi'i farcio â —

(a) marc adnabod; neu

(b) slapfarc sy'n ddarllenadwy drwy gydol oes y mochyn a thrwy gydol prosesu ei garcas.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr marchnad gigydda yw marchnad i werthu moch y bwriedir eu cigydda yn ddiymdroi.

Symud moch i sioeau, arddangosfeydd ac at ddibenion bridio

19. Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad —

(a) i sioe neu arddangosfa; neu

(b) at ddibenion bridio gyda'r bwriad o ddychwelyd y mochyn i'r daliad y cafodd ei symud oddi arno

oni bai ei fod wedi'i farcio â marc adnabod sy'n cynnwys rhif adnabod unigol unigryw yn unol ag erthygl 10(2).

Symud moch i'w hallforio

20.—(1) Ni chaiff neb symud mochyn oddi ar ddaliad at ddibenion masnach neu allforio rhyng-Gymunedol oni bai ei fod wedi'i farcio â marc adnabod sy'n cynnwys —

(a) rhif adnabod unigol unigryw yn unol ag erthygl 10(2); a

(b) y llythrennau "UK" o flaen marc y genfaint.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys p'un ai tag clust ynteu tatw yw marc adnabod.

RHAN 6

RHEOLEIDDIO SYMUDIADAU

Symud moch

21.—(1) Rhaid i unrhyw berson sy'n cludo moch gario dogfen, a lofnodwyd gan y ceidwad sy'n pennu —

(a) y cyfeiriad, gan gynnwys cod post a rhif CPH y daliadau y mae'r moch yn cael eu symud oddi arnynt ac iddynt;

(b) y dyddiad y mae'r symud yn digwydd;

(c) y nifer o foch y mae'r ddogfen honno'n eu cwmpasu;

(ch) marc adnabod pob un o'r moch a symudir; ac